Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)

Mai 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 22 Ionawr 2025. Fe'i noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**2.** Dywed Nodiadau Esboniadol y Bil fel y'i cyflwynwyd:

> *"The Public Authorities (Fraud, Error and Recovery) Bill ("the Bill") is intended to safeguard public money and protect the economic well-being of the country by reducing public sector fraud, error and debt. The Bill makes provisions to better identify, prevent and deter public sector fraud and error and enable the better recovery of money (debt) owed to the taxpayer where public money has been stolen or overpaid.*
>
> *The Bill introduces new powers to enable the Cabinet Office to investigate public sector fraud outside of tax and social security, using its expertise to act on behalf of other parts of government. The Bill also introduces new powers to improve the Department for Work and Pensions' ("DWP") ability to address fraud and error in the social security system.*
>
> *The Bill includes safeguards, reporting mechanisms and oversight provisions to ensure the appropriate, proportionate, and effective use of the powers. The Bill also makes provision for the oversight of investigations conducted by both the Cabinet Office and DWP to ensure these are carried out in line with guidance and any relevant codes of practice."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn nodi ei ddiben, sef:

> *"... make provision about the prevention of fraud against public authorities and the making of erroneous payments by public authorities; about the recovery of money paid by public authorities as a result of fraud or error; and for connected purposes."*[3]

---

[1] Y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), fel y'i cyflwynwyd [Saesneg yn unig]
[2] Nodiadau Esboniadol y Bil, fel y'i cyflwynwyd [Saesneg yn unig]
[3] Y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1

**4.** Cwblhawyd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth 2025. Pan gytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd y Bil yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

## Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 7 Chwefror 2025, gosododd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (yr Ysgrifennydd Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil (y Memorandwm)[4] gerbron y Senedd.

**7.** Ym mharagraffau 4 a 5 o'r Memorandwm, dywed yr Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau i nodi, atal a rhwystro twyll a gwallau yn y sector cyhoeddus yn well, a galluogi arian (dyled) sy'n ddyledus i'r trethdalwr i gael ei adennill yn well pan fo arian cyhoeddus wedi'i gaffael neu ei ordalu drwy dwyll.*
>
> *Mae'r Bil yn cynnwys mesurau diogelu, mecanweithiau adrodd a darpariaethau goruchwylio i sicrhau bod y pwerau yn cael eu defnyddio'n briodol, yn gymesur ac yn effeithiol. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer goruchwylio ymchwiliadau a gynhelir gan DWP a PSFA i sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau ac unrhyw godau ymarfer perthnasol."*[5]

**8.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 25 Ebrill 2025.[6]

---

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Chwefror 2025
[5] Y Memorandwm, paragraffau 4 a 5
[6] Y Pwyllgor Busnes: Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Chwefror 2025

**9.** Ar 6 Mawrth 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil[7] gerbron y Senedd.

**10.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar bob Memorandwm sy'n ymwneud â'r Bil erbyn 2 Mai 2025.[8]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**11.** Yn y Memorandwm, barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer:

- Cymal 1 (Swyddogaethau craidd Gweinidog Swyddfa'r Cabinet);
- Cymal 2 (Rhyngweithio ag awdurdodau cyhoeddus eraill);
- Cymal 5 (Rhannu gwybodaeth);
- Cymal 6 (Diwygio Deddf Pwerau Ymchwilio 2016);
- Cymal 7 (Pwerau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 etc) ac Atodlen 1 (Twyll yn erbyn awdurdodau cyhoeddus: pwerau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984);
- Cymal 9 (Digwyddiadau etc);
- Cymal 10 (Gweithredu ar ran awdurdod cyhoeddus arall);
- Cymal 64 (Adolygiad annibynnol) a chymal 65 (Adolygiad annibynnol: darpariaethau pellach);
- Cymal 67 (Datgelu gwybodaeth etc: Rhyngweithio â chyfyngiadau allanol);
- Cymal 69 ac Atodlen 2 (Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus).

**12.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1, 2, 7 (ac Atodlen 1), 9, 64, 65 a 69 (ac Atodlen 2).[9]

---

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Mawrth 2025
[8] Y Pwyllgor Busnes: Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Mawrth 2025
[9] Y Memorandwm, paragraff 11

**13.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… mae gwahaniaeth safbwynt mewn perthynas â'r angen am gydsyniad ar gyfer cymalau 5, 6 a 67. Yn fy marn i, mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig… O ganlyniad, yn unol â Rheol Sefydlog 29, mae angen cydsyniad y Senedd."*[10]

**14.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil ar 21 Chwefror 2025. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet o'r farn bod dau welliant – i gymalau 6 a 67 – yn rhoi sylw i faterion datganoledig. Ym mharagraff 12 o Femorandwm Rhif 2, dywed yr Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Mae dau o'r gwelliannau 21 Chwefror yn bodloni'r prawf RhS29:*
>
> *(a) Gov 1 – Byddai'r gwelliant hwn yn cyfyngu cwmpas cymal 6 y Bil gyda'r effaith mai dim ond y PSFA allai wneud cais am ganiatâd i gasglu data cyfathrebu mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan y Bil (yn hytrach nag, o dan eiriad y cymal fel y'i cyflwynwyd, "the Cabinet Office"). Gallai'r ymchwiliadau hynny ymwneud â thwyll yn erbyn Awdurdodau Cymreig Datganoledig (DWAs). Bodlonodd cymal 6 y Prawf RhS29 adeg ei gyflwyno ac roedd yn destun y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Gan fod y gwelliant yn newid cwmpas darpariaeth sy'n bodloni'r Prawf RhS29, mae'r gwelliant ei hun hefyd yn bodloni'r prawf hwnnw.*
>
> *(b) Gov 3 – Mae'r gwelliant hwn yn newid cwmpas cymal 67(3) a oedd, fel y'i cyflwynwyd, yn bodloni'r Prawf RhS29 ac a oedd yn destun y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Ar hyn o bryd, mae cymal 67 yn darparu bod rhaid cymryd darpariaeth yn y Bil i ystyriaeth wrth benderfynu a yw "datgelu, cael neu ddefnyddio" data o dano, yn torri deddfwriaeth diogelu data. Byddai'r gwelliant yn darparu bod cymal 67(3) yn gymwys i'r holl waith prosesu data o dan ddarpariaeth yn y Bil, nid yn unig "datgelu, cael neu ddefnyddio". Mae'n ddigon posibl y bydd Awdurdodau Cymreig Datganoledig yn datgelu neu fel arall yn prosesu gwybodaeth o dan y Bil. Bodlonodd cymal 67 y Prawf RhS29 adeg ei gyflwyno ac roedd yn destun y*

[10] Y Memorandwm, paragraff 12

*Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Gan fod y gwelliant hwn yn newid cwmpas cymal sydd eisoes yn destun LCM yn sylweddol, mae'n bodloni'r Prawf SO29."*

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**15.** Yn y Memorandwm, dywed yr Ysgrifennydd y Cabinet:

*"Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill). Mae'r darpariaethau yn y Bil yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar ddiogelu cronfeydd cyhoeddus rhag colledion o bob math. Mae'r Bil yn cyfrannu at ystod o nodau Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol drwy gefnogi:*

- *Cymru lewyrchus – helpu i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chyrff cyhoeddus yng Nghymru rhag twyll, gwallau ac adennill.*
- *Diogelu cronfeydd cyhoeddus – i sicrhau bod cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol yn elwa ar y gwasanaethau cyhoeddus y mae'r cronfeydd hynny'n eu cefnogi i ddarparu ansawdd bywyd da mewn cymunedau mwy diogel.*
- *Cefnogi pob un o'r cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf – o'r llywodraeth ganolog i Awdurdodau Lleol a Chyrff Iechyd – i atal twyll ac adennill cronfeydd yn sgil twyll a/neu wallau."*[11]

**16.** Ym mharagraff 17 o'r Memorandwm, dywed yr Ysgrifennydd y Cabinet:

*"Mae'r Bil yn ymwneud â materion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl (yn fwyaf arbennig canfod, atal ac ymchwilio i droseddau) ac felly mae llwybr Senedd y DU yn ffordd briodol o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir yn y ffordd fwyaf effeithiol yn y maes hwn. Byddai peidio â chefnogi'r darpariaethau arfaethedig yn peri anfantais i awdurdodau Cymreig datganoledig ac yn gwadu cyfleoedd ychwanegol iddynt adennill cronfeydd cyhoeddus."*

[11] Y Memorandwm, paragraff 13

**17.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn ategu ei safbwynt ei bod "yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil y DU."[12]

**18.** Er nad yw wedi'i grybwyll yn benodol yn y Memorandwm, dywed yr Ysgrifennydd Cabinet ym Memorandwm Rhif 2 fod swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd mewn perthynas â'r gwaith o ddatblygu'r Bil, gan gynnwys mewn perthynas â gwelliannau gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru.[13]

# 2. Trafodaethau'r Pwyllgor

**19.** Gwnaethom drafod y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 17 Mawrth 2025.[14]

**20.** Gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 21 Mawrth 2025[15] a chawsom ymateb ar 28 Mawrth 2025.[16]

**21.** Yn ein cyfarfod ar 28 Ebrill 2025, gwnaethom benderfynu cytuno ar ein hadroddiad y tu allan i'r cyfarfod.[17]

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**22.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm ac ym Memorandwm Rhif 2.

**23.** Nodwn hefyd safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad, a bod y safbwynt hwnnw'n wahanol i safbwynt Llywodraeth Cymru o ran cymalau 5, 6 a 67.

**24.** Ymddengys fod gwahaniaeth barn hefyd ynghylch cymal 10, oherwydd mae'r Ysgrifennydd Cabinet o'r farn bod angen cydsyniad ar ei gyfer ond nid yw wedi'i

[12] Memorandwm Rhif 2, paragraff 13
[13] Memorandwm Rhif 2, paragraff 9
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mawrth 2025
[15] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 21 Mawrth 2025
[16] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 28 Mawrth 2025
[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 28 Ebrill 2025

restru yn Atodiad A i Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y DU i'r Bil fel cymal y mae proses cydsyniad deddfwriaethol y Senedd yn berthnasol iddo.

**Casgliad 1.** Cytunwn ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29; ond mae hyn yn amodol ar ein barn a nodir yng nghasgliad 2.

**25.** Fel y nodir uchod, gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet yn gofyn am eglurder ynghylch pam y mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad mai dim ond ar gyfer rhai cymalau yn Rhan 1 o'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd, ac nad oes ei angen ar gyfer cymalau eraill.

**26.** Ymddengys y gallai Gweinidog Swyddfa'r Cabinet ddefnyddio unrhyw un neu ragor o'r pwerau yn Rhan 1 o'r Bil ar ran Awdurdod Cymreig Datganoledig, a gwnaethom dynnu sylw'r Ysgrifennydd Cabinet at hynny. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud, er enghraifft, fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 7 o'r Bil, sy'n caniatáu i Weinidog Swyddfa'r Cabinet ddefnyddio pwerau yn *Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984* i ymchwilio i amheuaeth o dwyll yn erbyn awdurdod cyhoeddus. Felly, gwnaethom ddweud nad yw'n glir i'r Pwyllgor pam nad oes hefyd angen cydsyniad ar gyfer cymal 3, sy'n caniatáu i'r Gweinidog hwnnw ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth at yr un dibenion.

**27.** Nodwn ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet, sef ei bod:

> *"… o'r farn o hyd, o fewn Rhan 1 o'r Bil, mai dim ond cymalau 1, 2, 5, 6, 7 (ac Atodlen 1), 9, 10, 64, 65, 67 a 69 (ac Atodlen 2) o'r Bil fel y'i cyflwynwyd sy'n bodloni'r Prawf RhS29. Mae'r cymalau hyn naill ai'n rhoi swyddogaethau i Awdurdodau Cymreig Datganoledig neu'n ymwneud yn arbennig o agos ag ymchwilio i dwyll yn erbyn Awdurdodau Cymreig Datganoledig."*[18]

**28.** Nid ydym wedi ein darbwyllo gan y rhesymeg hon, ac nid ydym o'r farn bod yr ymateb yn ddefnyddiol gan nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ymdrin â'r cwestiwn a ofynnwyd gennym.

**Casgliad 2.** Rydym o'r farn bod pob cymal yn Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig (i'r graddau y gallai Gweinidog Swyddfa'r Cabinet arfer y pwerau a'r swyddogaethau yn Rhan 1 ar ran Awdurdod

[18] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 28 Mawrth 2025

Cymreig Datganoledig) ac, o'r herwydd, y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 yn ei chyfanrwydd.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu eglurder a rhesymeg fanwl ynghylch pam nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 o'r Bil yn ei chyfanrwydd. Wrth ymateb, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ymdrin yn benodol â pham y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 7 ond nad oes ei angen ar gyfer cymal 3.

**29.** Wrth wneud argymhelliad 1, nodwn sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch cymal 99, sef ei bod o'r farn o hyd "nad yw'r cymalau cymhwyso yn bodloni'r Prawf RhS29 yn gyffredinol am nad oes ganddynt unrhyw effaith gyfreithiol ar wahân i'r darpariaethau y maent yn ymwneud â hwy."[19]

## Pwerau dirprwyedig

**30.** Yn olaf, nodwn, er nad yw'r Bil yn rhoi unrhyw bwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru, fod Rhan 1 o'r Bil yn rhoi nifer o bwerau i Weinidog Swyddfa'r Cabinet i weithredu mewn meysydd datganoledig, gan gynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Nodwn ymhellach fod hyn yn cynnwys tri phŵer Harri'r Wythfed yng nghymal 55(4), paragraff 21(4) o Atodlen 2, a pharagraff 22(1) o Atodlen 2.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro a ofynnodd Llywodraeth Cymru am bwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'r pwerau a ddirprwyir i Weinidog Swyddfa'r Cabinet i weithredu mewn meysydd datganoledig ac y gellid eu harfer yn gydredol â Llywodraeth y DU.

[19] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 28 Mawrth 2025